CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r:	**Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau**
Dyddiad y cyfarfod:	**7 Tachwedd 2024**
Teitl:	**Rhoi hawddfraint mewn perthynas ag is-orsaf drydan newydd yn Ysgol Gyfun Aberaeron**
Pwrpas yr adroddiad:	**I ystyried adroddiad y Prisiwr Dosbarth**
Er:	**Penderfyniad**

Cefndir

Efallai fod rhai Aelodau'n cofio adroddiad a ddygwyd gerbron y Pwyllgor ar 15/10/2019 ynghylch y mater hwn (Atodiad 1). Daeth y Pwyllgor i'r penderfyniad:

"bod y swyddogion, ar ran yr ymddiriedolaeth:

a) *yn rhoi cyfarwyddiadau i'r Prisiwr Dosbarth lunio adroddiad ar y drefniadaeth a gynigir i gwmpasu holl ofynion Rheoliadau Elusennau (Adroddiadau Syrfewyr Cymwys) 1992, fel y'u hamlinellir ym mharagraff 3.1 yr adroddiad uchod;*
b) *yn bwrw ymlaen i osod hysbysiad safle un mis yn Ysgol Uwchradd Aberaeron a hefyd gyda Chyngor y Dref, os ydynt yn fodlon i hynny."*

Mae'r broses o ddod i gytundeb - gyda Geldards ar ran y Grid Cenedlaethol - ar y drafft o'r les wedi bod yn mynd rhagddo ers peth amser ond nawr mae'r swyddogion yn barod i ddod â hwn yn ôl i'r Pwyllgor ar gyfer penderfyniad.

Y Sefyllfa Bresennol

Atodwyd adroddiad prisiwr eithriedig gydag Adroddiad Eithriedig yn Atodiad 2.

O ran rhan b) o benderfyniad 2019 uchod, gall y swyddogion gadarnhau bod hysbysiad adran 121 o Ddeddf Elusennau 2011 wedi'i osod wrth fynedfa'r lôn fynediad i Ysgol Gyfun Aberaeron ac ar fwrdd hysbysiadau cyhoeddus Cyngor y Dref y tu allan i'r Neuadd Sirol ar 30/09/2024 am gyfnod o fis. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn nid oes sylwadau wedi dod i law ond gan nad yw'r dyddiad cau o fis wedi pasio eto, rhoddir diweddariad ar lafar yng nghyfarfod y Pwyllgor.

Fel arfer mewn perthynas â gwaredu tir, yn enwedig tir dynodedig fel hyn, bydd angen caniatâd y Comisiwn Elusennau, fodd bynnag, mae canllawiau'r Comisiwn yn nodi na fydd angen caniatâd y Comisiwn os *"na fydd gwaredu'r tir yn cael effaith ar ddiben y tir neu'r modd y mae'r elusen yn hyrwyddo'r diben. Er enghraifft, os mai ond darn bach o dir a waredir, neu os ydych yn rhoi hawddfraint neu hawl tramwy cyhoeddus."* Yn yr amgylchiadau hyn, gall yr ymddiriedolwr fwrw ymlaen ar yr amod ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion elusennol cyffredinol ar gyfer gwaredu tir, megis cael adroddiad gan syrfëwr cymwys a hysbysebu'r gwaredu. Fel y gwêl yr Aelodau o'r uchod, mae'r gofynion hyn wedi'u cyflawni.

Argymhellion:

Bod y Pwyllgor yn PENDERFYNU:

1. **derbyn adroddiad y Prisiwr Dosbarth ac argymhelliad y swyddog a bod yr ymddiriedolwr yn fodlon, ar ôl ystyried adroddiad y Prisiwr Dosbarth, mai'r telerau a fwriedir ar gyfer yr hawddfraint yw'r gorau y gellir eu cyflawni yn rhesymol ar gyfer yr ymddiriedolaeth;**

2. **bod yr ymddiriedolaeth yn derbyn £1,000 oddi wrth y Cyngor (yn rhinwedd ei swyddogaeth gorfforaethol) fel cydnabyddiaeth i'r ymddiriedolaeth am ganiatáu'r hawddfraint dros dir yr ymddiriedolaeth y cyfeirir ato yn yr adroddiad; hefyd**

3. **bod swyddogion, ar ran yr ymddiriedolaeth, yn bwrw ymlaen i ymgymryd â'r holl ffurfioldeb cyfreithiol sy'n angenrheidiol i gwblhau les yr is-orsaf.**

Y rheswm am y penderfyniad:

Er budd yr ymddiriedolaeth a fydd yn elwa o'r seilwaith gwell ar y safle ac i gydymffurfio â gofynion y gyfraith elusennol.

Atodiadau: Atodiad 1 – adroddiad i'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau 15/10/2019
Atodiad 2 - Eithriedig

Pennaeth y Gwasanaeth: Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu

Swyddog Adrodd: Louise Harries, Uwch-gyfreithiwr – Gwaith nad yw'n gynhennus (Eiddo)

Dyddiad: 15/10/2024